



Yr Ysgol Gymraeg, Coedlan Plascrug, Aberystwyth, Ceredigion SY23 1HL  
Ffôn / Tel: 01970 617613 Ffacs / Fax: 01970 636742  
Prifathro / Headteacher: Mr R. Clive Williams

## COFNODION Y CYNGOR YSGOL

**Ionawr 11eg, 2013**

### Presennol

*Robert Gorman, Sara Fflur Griffiths,  
Dylan Skym, Gwenllian Thomas,  
Rhianedd Owen, Sara ap Robert John,  
Erin Davies, Elen Llywelyn Evans,  
Mrs Williams, Mrs Llwyd*

### Agenda

#### 1. Croesawu pawb i'r cyfarfod

Croesawodd Robert Gorman, Cadeirydd y Cyngor Ysgol, bawb i'r cyfarfod ac yn ôl i'r ysgol ar ôl gwyliau'r Nadolig. Dymunodd Flwyddyn Newydd Dda i bawb hefyd.

#### 2. Adolygu gweithgarwch y Cyngor Ysgol, Medi-Rhagfyr 2012:

Fe edrychom ni ar dudalen y Cyngor Ysgol ar wefan yr ysgol er mwyn adolygu ein gweithgarwch ers cael ein hethol ym mis Medi 2012.

#### 3. Trafod materion sy'n codi yn y dosbarthiadau:

Gofynnodd Robert os oedd unrhyw faterion wedi codi ymhlith ein cyd-ddisgyblion yn y dosbarthiadau ers y cyfarfod diwethaf.

##### Trafodwyd y canlynol:

- **Amser chwarae gwlyb** – gan nad yw'r tywydd yn wych ar yr adeg yma o'r flwyddyn, dywedodd sawl un o aelodau'r Cyngor Ysgol eu bod wedi cael cwynion yn eu dosbarthiadau ynglŷn â diffyg adnoddau yn ystod amser chwarae gwlyb. Roedd sawl un yn hoffi'r syniad o gael ffilm/cartŵn yn chwarae yn y neuadd i bawb fedru ei gwyllo adeg amser chwarae gwlyb. Byddwn yn holi Mr Williams beth sy'n bosibl gwneud ynglŷn â hyn.

- **Siop Ffrwythau** – dywedodd ambell un eu bod wedi cael cwynion ynglŷn â diffyg dewis a phrisiau uchel yn y siop ffrwythau amser egwyl. Penderfynwyd trafod hyn gyda Mr Griffiths a disgyblion Bl.5, ac roedd sawl un yn awyddus i holi os oedd modd cael mwy o'r muffins banana yno hefyd gan eu bod nhw'n dueddol o werthu allan yn gyflym.

- **Mwy o adnoddau ar yr iard/cae** – roedd sawl un yn awyddus i gael mwy o adnoddau i chwarae gyda nhw ar yr iard/cae amser chwarae.

#### 3. Bocs Syniadau

Edrychodd Robert a Dylan yn y Bocs Syniadau - doedd dim awgrymiadau yno y mis hwn.

Diolchodd Robert i bawb am ddod cyn cloi'r cyfarfod.

**Dyddiad y cyfarfod nesaf**

Dyddiad y cyfarfod nesaf fydd Chwefror 28ain 2013

***Cofnodion gan Sara a Gwenllian (Ysgrifenyddes ac Is-Gadeiryddes).***